Adroddiad Ymgynghori

Mesurau Arafu Traffig Cherry Orchard Road / Blossom Drive

Rhif Project: CO16386

Bu ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 8 Mehefin 2017 a 23 Mehefin 2017. Cafwyd tri ymateb, un ysgrifenedig a dau ar y ffôn a gafodd eu recordio. Roedd y tri ymateb o blaid y cynnig i arafu traffig mewn egwyddor. Mae'r gofidiau a'r sylwadau wedi eu crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Mater 1
Rwy'n croesawu camau gweithredu i fynd i'r afael â chyflymderau cerbydau sy'n gyrru i lawr Cherry Orchard Road, ond rwy'n credu eich bod yn rhoi'r mesurau ar waith yn y lle anghywir. Rwy'n byw ar ben Heol Cefn Onn ac rydym yn cael problemau'n aml gyda chyflymderau cerbydau sy'n gyrru i lawr y bryn gan droi i mewn i Heol Cefn Onn yn rhy gyflym. Yn hytrach na rhoi mesurau arafu traffig ar waith ar waelod y bryn, byddai'n well eu gosod ar ben y bryn cyn i gerbydau gael amser i gyflymu. Ni fyddai'r cynnig traffig, fel y mae, yn cael effaith ar gerbydau sy'n gyrru heibio neu sy'n gyrru i mewn i Heol Cefn Onn, a fyddai'n gyfle a gollwyd.

Ymateb
Fel y nodir yn y wybodaeth am yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor, mae'r cynnig hwn yn rhan o gynnig mwy. Mae'r cynnig mwy yn cynnwys rhoi mesurau tebyg ar waith wrth gyffyrdd Heol Cefn Onn a The Paddock â Cherry Orchard Road (cyfeirnod y project P087). O ganlyniad i ddiffyg arian gallwn ond fynd i'r afael ag un o'r cyffyrdd hyn ar hyn o bryd. Ar ôl ymgysylltu â'ch Cynghorydd Ward Lleol, bwriwyd ymlaen gyda chyffordd Cherry Orchard Road.

Bydd y cynnig mwy yn parhau i fod ar ein rhestr aros a chaiff ei ddatblygu pan fo arian ar gael.

Mater 2
Mae trigolyn yn gofyn am ymestyn maint arwyneb y ramp, er mwyn ymestyn yr ardal arafu traffig (o ganlyniad i weledded cyfyngedig a chyflymderau cerbydau wrth y gyffordd).

Ymateb
Caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r broses ddylunio fanwl. Noder mai dim ond hyn a hyn o arian sydd ar gael. Gweler yr ymateb i Fater 1 a mater 4 hefyd.

Mater 3
A oes modd ychwanegu marciau ffordd ac arwyddion ychwanegol i helpu i arafu cerbydau.

Ymateb
Fel rhan o'r broses ddylunio fanwl, caiff arwyddion a marciau ffordd ychwaneg eu hystyried. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd hyn ar yr amod y bydd yr arian angenrheidiol ar gael. Gweler hefyd yr ymateb i Fater 1.

Mater 4
Pryderon ynghylch lleoliad y ramp sef wrth ymyl wal.

Ymateb
Caiff hyn ei ystyried ymhellach fel rhan o'r broses ddylunio fanwl. Gallai fod angen gwneud mwy o waith arolygu ar y safle i benderfynu a oes angen ail-leoli'r ramp.

Yn ogystal â'r uchod, ystyrir defnyddio bolardiau yn ôl yr angen.